**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 9fed Mai 2024 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Nigel Davies, Helen Evans Eirlys James-Evans, Arwel Jones, Tina Jones, Alwen Thomas ac Iwan Thomas.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies
Clerc, Denfer Morgan

**201 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Ray Williams am fethu bod yn bresennol yn y cyfarfod

**202 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 11eg Ebrill 2024.

**203 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** talu'r canlynol:

Iwan Thomas – Cais Cyn-ymgeisio Mynwent yr Eglwys - £50

**204 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r prisiau a dderbyniwyd oddi wrth dri asiant cynllunio ar gyfer paratoi a chyflwyno cais cynllunio ar gyfer yr estyniad i'r fynwent. Nodwyd fod y tri yn cynnwys prisiau am wahanol elfennau a **PHENDERFYNWYD** drefnu iddynt gyflwyno pecyn tebyg er mwyn galluogi ystyriaeth pellach gan y Cyngor.

**205 Cynigion Drafft Adolygiad Cymunedau Ceredigion**

Dywedodd y Clerc y byddai sylwadau'r Cyngor ar y Cynigion Drafft, fel a gytunwyd yng nghyfarfod mis Ebrill, yn cael eu hanfon at Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn dilyn y cyfarfod hwn.

Dywedododd y Cyngorydd Sir Marc Davies fod Grwp Aml-bleidiol y Cyngor Sir wedi cwrdd yn ddiweddar ac wedi rhoi ystyriaeth manwl i'r Cynigion Drafft ac wedi penderfynnu anfon ei sylwadau ei hun i'r Comisiwn.

**206 Unrhyw Fater Arall**

a) Rhoddwyd ystyriaeth i'r cais am gymorth ariannol tuag at y gost o adnewyddu'r diffibrilydd yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron. Cytunwyd mewn egwyddor i wneud cyfraniad ariannol ac i gynorthwyo cael gafael ar grantiau oedd ar gael at y pwrpas hwn.

b) Dilyn i fyny gyda'r Cyngor Sir y twll yn y ffordd ar yr allt sy'n arwain o'r Bont Newydd i Gilcennin gan nad oedd wedi'i drwsio.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:15pm